Taflen Ffeithiau ar Wahardd Plant o'r Ysgol

Ombwdsmon
OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU

Mae'r Daflen Ffeithiau hon yn sôn am gwynion ynghylch gwahardd plant o'r ysgol. Dylid ei darllen gyda'r daflen sy'n rhoi gwybodaeth gyffredinol am ein gwasanaeth.

Mae penderfyniad i wahardd disgybl o'r ysgol yn cael ei wneud gan y pennaeth, a'i adolygu gan lywodraethwyr yr ysgol. Os cadarnheir y penderfyniad, ac mae'r gwaharddiad yn un parhaol, mae gennych hawl i apelio i banel apêl annibynnol. Os yw'r panel yn cadarnhau'r gwaharddiad, rhaid i'r cyngor lleol, fel yr Awdurdod Addysg Lleol, sicrhau bod y disgybl yn derbyn addysg arall sy'n addas.

Yr hyn gall yr Ombwdsmon ei wneud

Bydd yr Ombwdsmon yn gallu edrych ar sut y deliodd y panel â'ch apêl. Gallai hyn gynnwys:

- a wnaeth y panel ddilyn y gweithdrefnau cywir neu beidio, e.e. a oedd y panel wedi'i gyfansoddi'n iawn, ac yn annibynnol? A wnaethoch dderbyn y dystiolaeth y byddech yn dibynnu arni mewn da bryd cyn y gwrandawiad?
- a gafodd y gwrandawiad ei gynnal yn deg, e.e. a oeddech yn cael galw tystion? A wnaeth y panel fodloni ei hun: (a) bod y digwyddiadau a arweiniodd at y gwaharddiad wedi digwydd, ac os do, (b) mai gwahardd oedd y peth iawn i'w wneud.

Bydd yr Ombwdsmon hefyd yn gallu edrych ar sut y deliodd yr Awdurdod Addysg Lleol â chi wedyn. Gallai hyn gynnwys:

- cwyn na wnaeth yr Awdurdod Addysg ddarparu addysg llawn amser foddhaol arall yn ddigon buan, neu ddim o gwbl.
- cwyn nad oedd yr addysg arall a ddarparwyd yn addas i alluoedd eich plentyn, i'w ddoniau ac i unrhyw anghenion addysgol arbennig.
- cwyn ynghylch oedi yn setlo eich plentyn mewn ysgol newydd.

Yr hyn nad yw'r Ombwdsmon yn gallu ei wneud

Ni fydd yn gallu:

- edrych ar y rheswm dros wahardd eich plentyn, nac ar unrhyw beth yn ymwneud â disgyblaeth yn yr ysgol, nac ar faterion cyflogaeth yng nghyswllt aelodau o'r staff.

- mynd yn groes i benderfyniad y pennaeth, y llywodraethwyr neu'r panel apêl.

- gorchymyn yr ysgol neu'r Awdurdod Addysg Lleol i adael i'ch plentyn ddychwelyd i'r ysgol, neu i roi eich plentyn mewn ysgol arall.

Materion i gadw mewn cof

Fel arfer, bydd yr Ombwdsmon yn disgwyl ichi fod wedi cyflwyno sylwadau yn erbyn y gwaharddiad i'r llywodraethwyr cyn cwyno iddo ef. Fodd bynnag, efallai na fydd gennych hawl bob tro i gyflwyno eich achos **yn bersonol** i'r llywodraethwyr.

Nid oes gennych hawl i apelio i banel apêl annibynnol mewn achos lle mae'r gwaharddiad yn un am dymor penodol.

Os byddwn yn canfod rhywbeth o'i le gyda'r ffordd y deliodd y panel gyda'ch apêl, byddwn efallai yn gofyn i banel newydd glywed eich apêl eto.

Os oedd yr Awdurdod Addysg Lleol ar fai mewn rhyw ffordd, efallai y byddwn yn gofyn iddo wneud iawn am unrhyw ddiffygion drwy ddarparu addysg arall.

Gwybodaeth bellach

Mae'r ddogfen ganllawiau "Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion", a gyhoeddwyd yn 2004, a gwybodaeth ddefnyddiol arall, ar gael o dan yr adran addysg ar wefan **Llywodraeth y Cynulliad** yn www.wales.gov.uk

Elusen genedlaethol yw'r **Ganolfan Cyngor Addysgol** (Advisory Centre for Education neu ACE) sy'n rhoi cyngor annibynnol i rieni a gofalwyr plant rhwng 5-16 oed mewn addysg wedi'i hariannu gan y wladwriaeth. Gallwch ffonio eu llinell gynghori ar wahardd ar **0808 800 0327** yn ystod oriau swyddfa, neu eu llinell wybodaeth am wahardd ar **0207 704 9822**. Neu gallwch fynd i'w gwefan yn www.ace-ed.org.uk

Mae gwybodaeth, cyngor a chymorth hefyd ar gael oddi wrth **Snap Cymru** – www.snapcymru.org

Mae'r Ombwdsmon yn annibynnol a di-duedd; ni all orchymyn cyrff cyhoeddus i wneud yr hyn y mae'n ei argymell – ond mewn gwirionedd maent yn gwneud hynny bron bob tro.

Mae enghreifftiau o achosion yr edrychodd yr Ombwdsmon arnynt ar ein gwefan. Ewch i www.ombudsman-wales.org.uk

Os ydych yn ansicr a fyddai'r Ombwdsmon yn gallu edrych i mewn i'ch cwyn, cysylltwch â ni:

- **ffoniwch** 0845 601 0987;
- **e-bostiwch** holwch@ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ewch i'r wefan** www.ombwdsmon-cymru.org.uk;
- **ysgrifennwch at:** Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru
  1 Ffordd yr Hen Gae, Pencoed CF35 5LJ